

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Bydd cyfarfod o'r CABINET yn cael ei gynnal ym Mhencadlys y Cyngor,
Y Pafiliynau, Cwm Clydach (Siambwr y Cyngor):-

DYDD IAU, 12 CHWEFROR 2015 AM 2pm

Cyswllt: Mrs Emma Wilkins (Rhif ffôn: 01443 424062)

Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn 5pm, 10 CHWEFROR 2015. Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad p'un ai ganiatáu'r cais. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. Pe hoffech chi wneud cais, ffoniwch Swyddfa'r Cabinet ar 01443 424062 neu, fel arall, e-bostio Cabinet@rctcbc.gov.uk.

PYNCIAU I'W TRAFOD

1 DATGANIAD BUDDIANT:

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Gynghorwyr, yn unol â gofynion Cod Ymddygiad y Cyngor.

Nodwch:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2. YMGYNGHORI AR FODEL GWASANAETHAU PLANT

Adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n amlinellu hynt y gwaith o ddatblygu Model ar gyfer Darparu Gwasanaethau i Blant ar gyfer Rhondda Cynon Taf.

Tudalennau 1-14

- 3. GWASANAETH CYFLENWI AR Y CYD - GWELLA CYFANSODDIAD.**
Adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Gwasanaethau Rheng-flaen sy'n gofyn i aelodau ystyried ac, os yw'n briodol, gymeradwyo'r newidiadau i gyfansoddiad presennol y gwasanaeth cyflenwi ar y cyd.

Tudalennau 15- 44

- 4 CANLYNIADAU ARHOLIADAU CYFNOD ALLWEDDOL 4 A SYSTEM CATEGOREIDDIO NEWYDD AR GYFER YSGOLION CYNRADD AC UWCHRADD AR GYFER 2014.**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes sy'n cadarnhau canlyniadau arholiadau Cyfnod Allweddol 4 a chanlyniadau System Categorioidio Ysgolion Cynradd ac Uwchradd ar gyfer 2014, Llywodraeth Cymru.

Tudalennau 45 - 60

- 5 AILDREFNU DOSBARTHADAU CYMORTH CYNNAL DYSGU AR GYFER DISGYBLION SYDD AG ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes sy'n rhoi gwybod i'r Aelodau am ganlyniadau'r ymgynghoriad diweddar ynglŷn â'r cynnig i aildrefnu darpariaeth dosbarthiadau cymorth cynnal dysgu prif ffrwd yn Rhondda Cynon Taf.

Tudalennau 61 - 198

- 6 ADOLYGU CYFRADDAU MILLTIROEDD Y CYNGOR AR GYFER CEIR.**

Adroddiad Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, sy'n gofyn am safbwyntiau aelodau'r cabinet ynglŷn â lleihau cyfraddau ad-dalu costau milltiroedd sy'n daladwy i staff sy'n defnyddio'u cerbydau ar gyfer rhesymau yn ymwneud â gwaith.

Tudalennau 199- 202

- 7 FFIOEDD A CHOSTAU'R CYNGOR (GAN GYNNWYS CYNIGION I DDIWYGIO COSTAU AR GYFER GWASANAETHAU HAMDDEN) 2015/16**

Adroddiad ar y cyd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Gwasanaethau Rheng-flaen a Chyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n amlinellu'r cynigion arfaethedig i gynyddu ffioedd a chostau'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol 2015/16, gan gyfeirio'n benodol at ffioedd a chostau ar gyfer gwasanaethau hamdden.

Tudalennau 203 - 218

- 8 ADRODDIAD PANEL Y STAFF**

Adroddiad Cyfarwyddwr y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau am waith Panel Staff y Cyngor

Tudalennau 219 - 226

9 CYLLIDEB REFENIW Y CYNGOR AR GYFER 2015/2016

Adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Gwasanaethau Rheng-flaen sy'n amlinellu strategaeth gyllideb arfaethedig y Cyngor yn dilyn yr ail gam yn y broses ymgynghori.

Tudalennau 227 - 312

10. MATERION BRYD

Trafod unrhyw faterion bryd mae Cadeirydd y Cabinet yn eu cymeradwyo.

A handwritten signature in black ink, appearing to be 'A. S. Jones', written in a cursive style.

Cyfarwyddwr Gwasanaeth ac Ysgrifennydd i'r Cabinet

